



CYNLLUN PERFFORMIAD UCHEL CBDC 2026-2036

Cymdeithas Bêl-droed Cymru

UCHELGAIS.

CENEDL GYSTADLEUOL A EDMYGIR,
SY'N BAROD I BERFFORMIO AR LWYFAN
EWROP A'R BYD.

CYFLWYNIAD

P'un a yw chwaraewr ar ddechrau eu taith bêl-droed llawr gwlad, yn datblygu trwy'r system academi, yn cystadlu'n ddomestig neu'n cynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, caiff pob taith perfformiad uchel ei hadeiladu ar sylfeini cryf. Ein huchelgais dros y ddegawd nesaf yw creu amgylchedd lle gall chwaraewyr Cymreig gyflawni eu llawn botensial a pherfformio'n gyson ar y lefel uchaf.

Mae perfformiad uchel yn fwy na chynhyrchu talent unigol yn unig. Mae'n ymwneud ag ecosystem bêl-droed gysylltiedig, uchelgeisiol a chynaliadwy sy'n adnabod potensial yn gynnar, yn datblygu chwaraewyr yn effeithiol, yn eu herio yn briodol ac yn eu paratoi i lwyddo ar lwyfan y byd.

Dros y deng mlynedd nesaf, bydd Cymru yn sefydlu llwybr perfformiad uchel clir ac integredig ar gyfer chwaraewyr gwrywaidd a benywaidd. Bydd y llwybr hwn yn cysylltu pêl-droed llawr gwlad, llwybrau adnabod talent, cystadlaethau domestig, clybiau proffesiynol a'r timau cenedlaethol, gan sicrhau bod gan chwaraewyr

talentog fynediad at amgylchedd a diwylliant, hyfforddiant, cystadlaethau, addysg a gwasanaethau perfformiad o safon fyd-eang, ar bob cam o'u taith datblygu.

Ein huchelgais yw cynyddu nifer a safon chwaraewyr Cymreig cymwys sy'n gallu cystadlu ar lefelau uchaf y gêm broffesiynol. Mae pêl-droed modern yn gofyn i ni baratoi chwaraewyr sy'n rhagori yn dechnegol, yn dactegol ddeallus, yn gorfforol gadarn, ac yn wydn yn feddyliol a all berfformio'n gyson o dan amgylcheddau pwysau uchel.





Ein huchelgais yw cynyddu nifer a safon chwaraewyr Cymreig cymwys sy'n gallu cystadlu ar lefelau uchaf y gêm broffesiynol. Mae pêl-droed modern yn gofyn i ni baratoi chwaraewyr sy'n rhagori yn dechnegol, yn dactegol ddeallus, yn gorfforol gadarn, ac yn wydn yn feddyliol a all berfformio'n gyson o dan amgylcheddau pwysau uchel.

Mae gwireddu perfformiad elît yn dibynnu ar y bobl a'r amgylcheddau yr ydym yn eu creu i chwaraewyr ffynnu. Bydd technoleg, data ac

arloesedd yn chwarae rhan fwyfwy amlwg o ran llywio perfformiad uchel. Byddwn yn defnyddio data perfformiad, dadansoddiadau fideo, deallusrwydd talent a thechnolegau newydd i wella prosesau penderfynu, personoli datblygiad chwaraewyr a nodi cyfleoedd i greu mantais gystadleuol. Bydd ein dull yn cyfuno arloesedd gydag arbenigedd a barn hyfforddwyr ac ymarferwyr perfformiad rhagorol a ddatblygir trwy ein system addysg hyfforddwyr fyd enwog.



“

Nid cynhyrchu chwaraewyr talentog
yn unig yw ein nod, ond creu'r bobl,
yr amgylcheddau a'r diwylliant
cystadlu sy'n galluogi talent
Gymreig i lwyddo ar lwyfan y byd.

”



PERFFORMIAD UCHEL MEWN RHIFAU A CHYFLAWNIADAU DIWEDDAR



UN AR BYMTHEG

Cyrraedd Round yr 16 olaf ym Mhencampwriaeth Ewropeaidd y Dynion yn 2020.



FIFA WORLD CUP
Qatar 2022

64 MLYNEDD

Cyrraedd Cupan y Byd am y tro cyntaf mewn 64 o flynyddoedd yn 2022 gyda Thîm Cenedlaethol y Dynion.



CYNTAF

Cyrraedd Roundiau Terfynol Pencampwriaeth Ewropeaidd Menywod UEFA am y tro cyntaf yn 2025 yn y Swistir.



UEFA
UNDER-17
CHAMPIONSHIP

Cyrraedd Turnamaint Terfynol Dynion Dan 17 dwy flynnedd yn olynol.

DAN 17

Graddio dwywaith y cyfartaledd Ewropeaidd o chwaraewyr i Dîm Cenedlaethol y Dynion dros y 5 mlynedd diwethaf.

5 MLYNEDD



2 MLYNEDD

Yn y 2 flynnedd ddiwethaf, graddio 5 o chwaraewyr i Dîm Cenedlaethol y Menywod.



Creu Canolfan Ymchwil Bêl-droed CBDC a datblygu mewnwelediadau o safon fyd-eang ar draws datblygiad chwaraewyr ac addysg hyfforddwyr.



Cydnabyddiaeth o safon fyd-eang yn ein darpariaeth a'n gweithrediad o Addysg Hyfforddwyr.

ADDYSG HYFFORDDWYR

FIFA®

Nod barcud FIFA o ragoriaeth am ein Rhaglen Ranbarthol ar gyfer Merched.





LLWYBRAU PÊL-DROED CYMERADWY CBDC

Un gêm. Llwybrau di-ri. Cyfleoedd oes



LLWYBR PERFFORMIAD CYMERADWY CBDC



ADNABOD TALENT

Nodi a chefnogi chwaraewyr gyda photensial.



ACADEMïAU CLWB PROFFESIYNOL

Hyfforddiant a datblygiad elît i bobl ifanc o fewn clybiau proffesiynol.



ACADEMïAU CBDC

Hybiau talent i ddatblygu chwaraewyr domestig o fewn hunaniaeth y Ffordd Gymreig.



PÊL-DROED PROFFESIYNOL

Cystadlu ar y lefelau uchaf.



CYSTADLAETHAU DOMESTIG

Cystadlu yn y gêm ddomestig.



CYNRYCHIOLI CYMRU YN Y TIMAU CENEDLAETHOL



LLWYBR CYMRYD RHAN CYMERADWY CBDC

CLYBIAU CYSYLLTIEDIG CBDC



BLYNYDDOEDD CYNNAR

(2-5 oed)

Sgiliau symud sylfaenol ac ymgysylltu â rhieni.



PÊL-DROED LLAI

(6-13 oed)

Gwneud ffrindiau, datblygu sgiliau a dealltwriaeth. 6-11 oed ddim yn gystadleuol.



PÊL-DROED IAU

(14-17 oed)

Datblygu potensial, cystadlu a pharatoi at bêl-droed oedolion.



PÊL-DROED IAU AC OEDOLION

(16 oed +)

Cadw'n heini, mwynhau'r gêm a chefnogi eraill.

FFORMATAU HYBLYG CYMERADWY CBDC

Fformatau enghreifftiol sydd ar gael



FUTSAL

Gemau llai. Cyflym. Technegol.



PÊL-DROED ANABLEDD

Pêl-droed cynhwysol i bawb.



PÊL-DROED HÛN

Pêl-droed ar gyfer chwaraewyr 35au, 45au, 55au a drosodd.



PÊL-DROED CERDDED

Cadw'n heini, cymryd rhan.



PÊL-DROED LLAI

Iechyd a lles.



RHAGLENNI CBDC

Anghystadleuol, hygyrch a chynhwysol.



PÊL-DROED AM OES



POBL.



AMCANION CORFFORAETHOL.

Nodi a hyfforddi hyfforddwyr a staff
cynorthwyo uchel eu potensial er mwyn
sicrhau'r 'tîm mwyaf parod yn y byd'.

Gwreiddio diwylliant ac amgylchedd
gan sicrhau bod hunaniaeth Gymreig ar
flaen popeth a wnawn, pwy ydym ni'n
ei gynrychioli a sut ydym yn
cynrychioli'r wlad.



BLAENORIAETHAU

- Recriwtio, ysbrydoli a datblygu hyfforddwyr ac ymarferwyr perfformiad uchel ar draws yr ecosystem.
- Cynyddu nifer yr hyfforddwyr a addysgir yng Nghymru sy'n gweithio mewn amgylcheddau clwb a rhyngwladol elît.
- Datblygu mentrau penodol sy'n creu mwy o gyfleoedd ac yn ehangu mynediad i hyfforddwyr benywaidd ar bob lefel o'r gêm.
- Datblygu mynegai neu fesur i sicrhau bod ein darpariaeth addysgol yn datblygu hyfforddwyr effeithiol.
- Cryfhau hygyrchedd a chynrychiolaeth o fewn y system hyfforddi.
- Allbwn ymchwil ac arloesedd; hyrwyddo gwelliant parhaus a mabwysiadu arfer gorau ar draws y timau cenedlaethol.

MESURAU LLWYDDIANT

- Nodi x 4 o hyfforddwyr uchel eu potensial wedi'u haddysgu yng Nghymru bob blwyddyn sy'n gallu pontio o'r diwydiant, o addysg neu o fod yn chwarae i amgylchedd rhyngwladol neu glwb. (Llwybr Bechgyn).
- Nodi 8-10 o hyfforddwyr benywaidd rhaglen 'Coaching HER Forward' y gellir eu datblygu i fod yn hyfforddwyr elît ar gyfer pêl-droed domestig a rhyngwladol.
- 50% o hyfforddwyr yn cymryd rhan mewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus a rhaglenni mentora (50% erbyn 2030 a 60% erbyn 2036).
- Cyflawni gwelliant 20% yn y Mynegai Effaith Addysg Hyfforddwyr erbyn 2036.
- Cynnydd blwyddyn ar flwyddyn mewn hyfforddwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cwblhau cymwysterau hyfforddi CBDC.
- Myfyrwyr Gwyddor Chwaraeon PhD ar draws yr holl Dimau Ieuencid Cenedlaethol.



LLWYBRAU.



AMCANION CORFFORAETHOL.

Sicrhau bod y llwybr ar gyfer chwaraewyr elît yn uno clybiau domestig, clybiau proffesiynol, a'r timau cenedlaethol i greu system sy'n gynhwysol, o ansawdd, ac yn gynaliadwy.

Sicrhau athroniaeth chwarae a hyfforddi cyson ar draws pob tîm cenedlaethol a rhaglenni domestig sy'n cyfateb.

Nodi, monitro, recriwtio a chadw chwaraewyr uchel eu potensial.

Defnyddio pŵer dadansoddi, data a meunwelediadau i ysgogi perfformiad elît wrth baratoi am gemau a'u chwarae, ac wrth ddatblygu talent.

Parhau i ddatblygu Cyngbreiriau Cymru a'r Cyngbreiriau Adran yn strategol, a'r cyfleoedd i ddatblygu mynediad a chyfleoedd ar gyfer timau anabledd elît.



BLAENORIAETHAU

- Cydweithio mewn partneriaeth i sefydlu pedair academi elît ledled Cymru i gefnogi'r chwaraewyr mwyaf talentog sy'n gymwys i gynrychioli Cymru ar hyd ein llwybrau datblygu pêl-droed dynion a menywod.
- Cyfradd Llwyddo – Pontio i'r Lefel Elît; monitro pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth bontio ar gyfer chwaraewyr uchel eu potensial i amgylcheddau elît.
- Tracio chwaraewyr uchel eu potensial; sicrhau bod pob chwaraewr cymwys uchel eu potensial yn cael ei nodi a'i fonitro yn fyd-eang.
- Trosiad Recriwtio Chwaraewyr; trosi chwaraewyr cymwys a nodir yn chwaraewyr sy'n ymrwymo i dîm Cymru.
- Datblygu Talent Ddomestig; cefnogi datblygiad lleol o fewn y llwybr i wireddu'r potensial mwyaf.
- Nodi gôl-geidwaid talentog ar draws pob academi ddomestig a hwyluso cyfleoedd datblygu.

MESURAU LLWYDDIANT

- Darparu pedair academi elît ledled Cymru sy'n datblygu chwaraewyr elît yn gyson i Dimau Cenedlaethol bechgyn a merched dan 15 oed.
- 75% o chwaraewyr uchel eu potensial yn cyflawni cerrig milltir cytunedig bob blwyddyn Gwarantu - 10 Cap bob blwyddyn y n cyfrannu at >2.2 o chwaraewyr newydd i'r tîm cyntaf bob blwyddyn.
- Cronfa ddata dracio gynhwysfawr yn cynnwys 95% o'r chwaraewyr a'r gôl-geidwaid uchel eu potensial sy'n wybyddus (domestig a byd-eang).
- Cyflwyno i 100% o'r chwaraewyr uchel eu potensial cymwys a dargedir gyda chynnig Prif Hyfforddwr y Tîm Cenedlaethol, a chynnig llwybr clir ac amlwg.
- 4 x digwyddiad cyfnod Sylfaen (7-11 oed) pob tymor, gemau Cupan Cymru a gemau carfannau cynrychioli (x10 y tymor), strategaeth ymadael benywaidd ar gyfer 100% o'n chwaraewyr.
- Dwy sesiwn yr wythnos ar gyfer gôl-geidwaid academi domestig talentog yn ein canolfannau rhanbarthol yn y de a'r gogledd.



LLEOEDD.



AMCAN CORFFORAETHOL.

Darparu cyfleusterau ac amgylcheddau o safon byd eang gyda gwasanaethau perfformiad integredig, fframweithiau meddygol a data effeithiol sy'n gwneud y mwyaf o botensial ein timau a'n chwaraewyr cenedlaethol.



BLAENORIAETHAU

- Cyrhaeddiad Ymgysylltu Cenedlaethol; Cryfhau'r cysylltiad rhwng timau cenedlaethol a chymunedau ledled Cymru trwy ymgysylltu amlwg gan chwaraewyr a hyfforddwyr.
- Creu profiad diwylliannol cyson ar draws pob grŵp oedran, gan sicrhau bod hunaniaeth ac ymddygiadau'n datblygu'n gynyddol o'r lefel Dan 14 i dimau hŷn.
- Ymgorffori iaith, hanes, symbolaeth, a straeon Cymru ym mhob gwersyll ac amgylchedd.
- Llwyfan Gwybodaeth Cymru: Canoli data perfformiad ac adroddiadau. Creu diwylliant sy'n cael ei arwain gan fewnwelediadau. Defnyddio ein data i gefnogi perfformiad timau a chyflymu cynnydd chwaraewyr dawnus drwy'r llwybr datblygu.

MESURAU LLWYDDIANT

- 12 o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol dan arweiniad chwaraewyr/hyfforddwyr bob blwyddyn ar draws yr holl ranbarthau.
- Alinio 85% â safonau diwylliannol ac amgylcheddol ar draws archwiliadau llwybrau datblygu.
- Cydymffurfiaeth 100% â'r rhestr wirio integreiddio diwylliannol ar gyfer pob gwersyll tîm cenedlaethol.
- 95% o gyflawnder a chywirdeb y data a'r adroddiadau ar Llwyfan Gwybodaeth Cymru.



LLWYDDO GYDA RHANDDEILIAID



PERFFORMIAD

CLYBIAU PROFFESIYNOL YNG NGHYMRU

Gweithio'n agos trwy weithgorau i huryluso amgylchedd o ansawdd i'n chwaraewyr elît sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

CYNGHREIRIAU CYMRU PREMIER AC ADRAN PREMIER

Gweithio mewn ffordd gydweithredol i sicrhau bod rheoliadau yn hyrwyddo cyfleoedd i dalent sydd wedi'i leoli yng Nghymru ddatblygu trwy ddod i gysylltiad â'r lefel uwch.

PRIFYSGOLION

Gwella ein perthynas presennol â phrifysgolion ymhellach i sicrhau cyfleoedd mewn lleoliadau myfyrwyr, ymchwil a rolau ar y cyd i wella'r broses o rannu gwybodaeth am berfformiad uchel.

CHWARAEON CYMRU

Cydweithio â Chwaraeon Cymru a Sefydliad Gwyddorau Perfformiad Cymru i gefnogi ymchwil ac arloesi effeithiol ar draws ein Timau Cenedlaethol a'n system hyfforddi.

ACADEMïAU ELÎT YN LLOEGR

Parhau i feithrin cysylltiad gyda'r amgylcheddau elît i sicrhau bod pob talent Gymreig cymwys yn cael ei nodi a'i fonitro yn effeithiol.

FIFA AC UEFA

Cysylltu â chymdeithasau cenedlaethol eraill i rannu gwybodaeth a dysgu o arfer gorau.

LLYWODRAETH

Gweithio'n agos â'r llywodraeth i sicrhau bod amcanion wedi'u halinio a datblygiad cyfleusterau elît ar gyfer y dyfodol.

CANOLFAN CBDC AR GYFER YMCHWIL PÊL-DROED

Gwella ein cydweithio gyda nifer o ymarferwyr a phrifysgolion i gynyddu allbwn ac effaith ein hymchwil.



DIOLCH.